

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/EM/3454/21

Russell George MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

SeneddHealth@senedd.cymru

6 Rhagfyr 2021

Annwyl Russell

Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru) 2020

Mae'n bleser gennyf amgáu'r Adroddiad Cyntaf ar Weithredu'r Cynllun Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol ym mis Tachwedd 2021 yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn ystod hynt y Ddeddf drwy'r Senedd yn 2020.

Darperir Adroddiadau pellach yn flynyddol i'r Pwyllgor.

Yn gywir

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ADRODDIAD ar gyfer y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Adroddiad Cyntaf ar Weithredu'r Cynllun Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol
(GMPI)

Tachwedd 2021

Cynnwys

- 1. Y Cynllun Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol – Cynllun Atebolrwyddau'r Dyfodol (FLS)**
- 2. Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)**
- 3. Gweithredu GMPI yng Nghymru**
- 4. Dysgu o ddigwyddiadau a gwella diogelwch cleifion – integreiddio â Chronfa Risg Cymru**
- 5. Pandemig y Coronafeirws**
- 6. Y Cynllun Atebolrwyddau Presennol (ELS)**
- 7. Boddhad Cwsmeriaid a Rhyngweithio â Rhanddeiliaid**
- 8. Edrych i'r Dyfodol**

1. Y Cynllun Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol – Cynllun Atebolrwyddau'r Dyfodol (FLS)

- 1.1 Ar 1 Ebrill 2019, lansiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynllun Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol – Cynllun Atebolrwyddau'r Dyfodol (a elwir yn GMPI). Mae'r Cynllun GMPI dewisol yn cael ei weithredu gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) ar ran Gweinidogion Cymru.
- 1.2 Darperir canllawiau a chymorth i feddygon teulu yng Nghymru a'u staff cyflogedig neu staff dan gontract, ar gyfer ymglybiau esgeuluster clinigol gwirioneddol neu bosibl sy'n deillio o ddarparu Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol y GIG. Mae rhai agweddau ar waith meddygon teulu nad yw'r cynllun yn eu cwmpasu, ac mae angen aelodaeth o Sefydliad Amddiffyn Meddygol ar gyfer yr agweddau hynny. Mae enghreifftiau o weithgarwch 'y tu allan i'r cwmpas' o'r fath yn cynnwys gwaith preifat, cwestau, materion disgyblu, materion gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol neu Reoleiddwyr eraill ac unrhyw elfennau anghlinigol o atgyfeiriadau Ombwdsmon.
- 1.3 Ni fwriedir i unrhyw beth yn y Cynllun wrth-ddweud dyletswyddau cyfreithiol eraill na rhwymedigaethau proffesiynol y gall meddygon teulu a'u staff fod yn ddarostyngedig iddynt. At hynny, ni fydd indemniad yn cael ei atal oherwydd bod ymarferydd wedi cymryd camau rhesymol i gydymffurfio â'i rwymedigaethau moesegol, proffesiynol neu statudol.
- 1.4 Mae'r holl fanylion am y Cynllun a'r Canllawiau ar gael yma.
<https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-cyfreithiol-a-risg/meysydd-arfer/indemniad-ymarfer-meddygol-cyffredinol/>
- 1.5 Mae'r canllawiau GMPI a chwestiynau cyffredin yn cael eu hadolygu a'u diwygio'n rheolaidd yn ôl yr angen, ac mae meddygon teulu, Rheolwyr Practis a Byrddau Iechyd yn cael gwybod am ddiweddariadau.

2. Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)

- 2.1 Tîm o gyfreithwyr mewnol sydd wedi gweithredu o fewn y GIG yng Nghymru ers dros 25 mlynedd yw Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC, sydd wedi bod yn darparu cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol i'r holl gyrrff iechyd yng Nghymru. Mae gan y tîm brofiad, gwybodaeth a dealltwriaeth arbenigol o faterion cyfreithiol, gweinyddol a pholisi sy'n effeithio ar ddull gweithredu'r GIG yng Nghymru. Mae gan y tîm brofiad arbennig o reoli hawliadau esgeuluster clinigol ar ôl rheoli dros 15,000 o hawliadau o'r fath yng nghyd-destun gofal eilaidd ers 2004.
- 2.2 Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC wedi adennill achrediad Marc Ansawdd Ymarfer Cyfreithiol Lexcel yn flynyddol ers 2002 a'r Wobr Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn flynyddol ers 2011.

- 2.3 Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC wedi ymrwymo i nodi a thynnu sylw at faterion risg er mwyn gwella dysgu a diogelwch mewn gofal sylfaenol a gofal eilaidd, ac mae wedi gweithio'n agos gyda gwasanaeth Cronfa Risg Cymru PCGC ers dros 25 mlynedd er mwyn sicrhau dull gweithredu integredig rhwng rheoli hawliadau, ad-dalu a dysgu gwersi.
- 2.4 Mae gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC Dîm Esgeuluster Clinigol Gofal Sylfaenol penodol sy'n gweithredu'r Cynllun ar gyfer GMPI a'r Cynllun Atebolrwyddau Presennol ("y Tîm GMPI"). Mae'r cyfreithwyr yn arbenigo mewn rheoli hawliadau esgeuluster clinigol yn erbyn meddygon teulu a staff meddygon teulu ac yn gweithio'n agos gyda chynghorwyr meddygon teulu mewnol PCGC i fynegi barn am bryderon cleifion a hawliadau cleifion ac i gynorthwyo gyda dysgu o ddigwyddiadau a hyfforddiant.
- 2.5 Ers ei sefydlu ym mis Ebrill 2019, mae'r Tîm GMPI wedi cyrraedd y rhestr fer mewn 3 gwobr gyfreithiol allanol:
- Gwobrau Cymdeithas y Cyfreithwyr 2021, rhestr fer yn y categori 'Tîm Mewnol y Flwyddyn';
 - Gwobrau y Gyfraith De Cymru 2021, rownd derfynol y categori 'Anafiadau Personol (esgeuluster clinigol)' – yn dal i aros am y canlyniadau;
 - Gwobrau Cyfreithiol Cymru 2020, rownd derfynol y categori 'Tîm Mewnol y Flwyddyn'.
- 2.6 Wrth reoli'r cynllun, mae'r Tîm GMPI ar hyn o bryd:
- yn gweithredu llinell gymorth e-bost a ffôn a ddefnyddir gan staff practisau meddygon teulu a Byrddau Lechyd ledled Cymru sy'n ceisio gwybodaeth am drefniadau indemniad a chymorth gyda chwynion/hawliadau esgeuluster clinigol;
 - yn ymdrin â hawliadau esgeuluster clinigol a gyflwynwyd yn erbyn practisau meddygon teulu yng Nghymru;
 - yn rhoi cymorth i bractisau meddygon teulu drwy ymateb i bryderon clinigol cleifion;
 - yn ceisio mewnbwn gan gynghorwyr meddygon teulu mewnol;
 - yn cyhoeddi cwestiynau cyffredin ar-lein sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd;
 - yn darparu hyfforddiant rhithwir pwrpasol i Fyrddau Lechyd a meddygon teulu/practisau/meddygon teulu dan hyfforddiant ledled Cymru. Er enghraifft, awgrymiadau ar gyfer atgyfeiriadau meddygon teulu yn ystod COVID-19, ymdrin yn effeithiol â phryderon cleifion, Prawf Cyfreithiol esgeuluster clinigol, Astudiaethau Achos, Cyfrinachedd a Dysgu o Ddigwyddiadau Ymarfer Meddygol Cyffredinol.
 - yn cyfrannu erthyglau i'r Cylchlythyr Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg sy'n cael ei anfon at Fyrddau Lechyd a phractisau meddygon teulu.
 - yn rhan annatod o'r broses gadarn o ddysgu o ddigwyddiadau mewn Ymarfer Meddygol Cyffredinol;

- yn cyfarfod yn rheolaidd ag isadrannau eraill PCGC (gan gynnwys, er enghraifft Gwasanaethau Gofal Sylfaenol PCGC, Gwasanaethau Cyflogaeth PCGC a Chronfa Risg Cymru PCGC) ac mae'n aelod o Grŵp Llywio Gofal Sylfaenol PCGC sydd wedi'i sefydlu i gefnogi gofal sylfaenol cynaliadwy ac i gyfrannu at ddatblygu a darparu'r model gofal sylfaenol yng Nghymru.

3. Gweithredu'r GMPI

- 3.1 Yn ystod blwyddyn lansio'r GMPI, sefydlodd y Tîm GMPI eu prosesau ar gyfer gweithredu'r cynllun a chreu rhaglen ar gyfer gweithdai/sesiynau gwybodaeth rheolaidd ar gyfer Byrddau Iechyd a phractisau meddygon teulu ledled Cymru. Cyn y pandemig COVID-19, teithiodd y Tîm GMPI ledled Cymru gyda sioe deithiol, a gyflwynodd 19 o sesiynau/gweithdai hyfforddi am y Cynllun GMPI newydd, yn esbonio sut y byddai'n gweithredu ac yn cynnwys sesiynau holi ac ateb. Wedi'u darparu ar sail wyneb yn wyneb traddodiadol i ddechrau, mae'r rhain yn parhau i gael eu darparu'n rhithwir.
- 3.2 Mae'r Tîm GMPI wedi darparu, ac yn parhau i ddarparu, llawer o gymorth i bractisau meddygon teulu. Ym mis Medi 2020, cynhyrchwyd a dosbarthwyd canllawiau cyfeirio cyflym wedi'u hanelu'n benodol at bractisau meddygon teulu i fynd i'r afael â chwynion yn brydlon ac i helpu i osgoi hawliadau lle'r oedd hynny'n bosibl. Mae'r canllawiau'n adlewyrchu gweithdrefn cwynion a phryderon [Gweithio i Wella GIG Cymru](#).
- 3.3 Mae'r Tîm GMPI yn gofyn yn rheolaidd am fewnbwn gan gynghorwyr meddygol meddygon teulu mewnol PCGC i gynorthwyo gydag ymatebion i bryderon cleifion (a hawliadau lle bo hynny'n briodol) ac yn pasio sylwadau cynghorwyr meddygon teulu, a'r dysgu sy'n cael ei awgrymu ynghlwm wrth hynny, i bractisau meddygon teulu. Mae'r tîm wedi cynorthwyo practisau meddygon teulu gyda dros 210 o bryderon cleifion yn ystod 2 flynedd gyntaf y Cynllun ac wedi gofyn am fewnbwn penodol gan gynghorwyr meddygol meddygon teulu mewnol PCGC ar tua 50 o faterion. Mae'r Tîm GMPI hefyd yn cyfarwyddo arbenigwyr meddygon teulu meddygol-cyfreithiol annibynnol ac arbenigwyr eraill, fel y bo'n briodol.
- 3.4 Mae'r Tîm GMPI wedi darparu hyfforddiant i feddygon teulu, rheolwyr practisau meddygon teulu a Byrddau Iechyd ar ymdrin â phryderon cleifion. Cefnogir yr hyfforddiant yn rhyngweithiol, wedi'i ategu gan astudiaethau achos ffeithiol. Mae'r hyfforddiant yn helpu i ysgogi trafodaeth a chydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a staff y practis meddyg teulu, sy'n arbennig o fuddiol mewn sefyllfa lle mae claf yn feirniadol o'r gofal sylfaenol a'r gofal eilaidd a dderbyniwyd. Pe bai staff practis yn cael budd o gael cymorth ychwanegol gan eu Bwrdd Iechyd perthnasol, mae'r Tîm GMPI mewn sefyllfa dda i gydlynu hyn drwy gysylltiadau yn y Byrddau Iechyd.
- 3.5 Mae sesiynau hyfforddi yn parhau ac yn cynnwys cymysgedd o bwyntiau cyfreithiol, meddygol ac ymarferol. Mae gweithdai/sesiynau hyfforddi diweddar wedi cynnwys:

- Ebrill 2021 – Gweminar Teams Amser Cinio ar gyfer meddygon teulu/uwch-ymarferwyr nyrsio am GMPI a chyfreithlondeb COVID gyda sesiwn holi ac ateb fyw, Woodland House, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro;
- Mai 2021 – Gweminar Teams hanner diwrnod ar gyfer meddygon teulu dan hyfforddiant a oedd yn cynnwys cyflwyniad i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC; y Cynllun GMPI, ymdrin â chwynion, Gweithio i Wella, y Prawf Cyfreithiol Esgeuluster Clinigol, Astudiaethau Achos, Cyfrinachedd ac Atgyfeiriadau. Gweithiodd y tîm gyda Tîm Hyfforddi Meddygon Teulu yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i drefnu a darparu'r hyfforddiant hwn, lle'r oedd tua 40 o fynychwyr;
- Mai 2021 – 2 x 1:15 awr o sesiynau hyfforddi pryderon/cwynion rhyngweithiol anffurfiol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, wedi'u darparu gan gyfreithwyr tîm GMPI a meddyg teulu mewnol. Roedd un sesiwn wedi'i theilwra i feddygon teulu, rheolwyr practis a staff practisau meddygon teulu, ac un ar gyfer cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd. Mynychodd tua 70 o unigolion y sesiynau.

- 3.6 Drwy'r cymorth a amlygwyd uchod, rhagwelir y bydd mewnbwn cynnar gan y Tîm GMPI o ran pryderon cleifion yn helpu i osgoi hawliadau esgeuluster clinigol yn y tymor hwy. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd rhai hawliadau, yn anochel, yn mynd rhagddynt, er enghraifft lle mae practis wedi gwneud consesiynau neu os yw'r hawliwr yn teimlo tramgwydd ac yn bwrw ymlaen â'r mater waeth beth fo rhinweddau'r hawliad. Ar 31 Mawrth 2021, ddwy flynedd yn unig ar ôl cyflwyno'r cynllun, dim ond dau fater yn ymwneud â phryder cleifion, ble'r oedd y Tîm wedi cynorthwyo â hwy, a ddatblygodd yn hawliadau ffurfiol.
- 3.7 Mae'r Tîm GMPI wedi cyflawni deilliannau da mewn hawliadau FLS ac wedi cael adborth cadarnhaol gan Fyrddau Iechyd a phractisau meddygon teulu. Mae adborth gan bractisau meddygon teulu yn cael ei gasglu drwy 'Holiaduron Boddhad Cleientiaid Cau Achosion' sy'n cael ei gyhoeddi ar ddiwedd hawliad FLS. Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion hyd at 31 Mawrth 2021. Fodd bynnag, derbyniwyd pedwar ymateb ers hynny, ym mis Ebrill a mis Mehefin 2021, a nododd yr ymatebion hynny fod y practisau meddygon teulu yn "fodlon iawn" gyda rheolaeth gyffredinol yr achos a'r cyngor a ddarparwyd. Mae rhagor o wybodaeth am yr adborth a gafwyd hyd yma i'w weld yn adran 7 isod.
- 3.8 Mae'r Tîm GMPI wedi arwain amddiffyniad llwyddiannus o hawliad mewn treial. Daeth yr hawliad yn erbyn practis meddyg teulu gan achwynwr personol, a gyflwynodd achos llys heb rybudd. Roedd yr iawndal a geisiwyd gan yr hawliwr yn isel, ond roedd yn hanfodol amddiffyn yr hawliad, er mwyn cefnogi staff y practis meddyg teulu a oedd yn gwadu'n gryf unrhyw atebolrwydd, ac er mwyn darbwyllo rhag cyflwyno hawliadau annheilwng tebyg. Roedd hyn yn enghraifft o'r practis meddyg teulu, y Bwrdd Iechyd a'r Tîm GMPI yn gweithio gyda'i gilydd

i reoli hawliad sensitif ac anodd a gyflwynwyd yn erbyn practis meddyg teulu penodol.

- 3.9 Mae gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC berthynas waith dda â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ers tro, ac maen nhw mewn cysylltiad rheolaidd. Mae systemau ar waith i'r Byrddau Iechyd ymateb gydag unrhyw gwestiynau neu bryderon am y GMPI. Mae Cyfarwyddwr Meddygol PCGC yn mynychu cyfarfod Penaethiaid Gofal Sylfaenol a Chyfarwyddwr Meddygol Cysylltiol yn rheolaidd ac mae'n gallu mynd i'r afael ag unrhyw ymholiad a chysylltu'n ôl â'r tîm GMPI.
- 3.10 Mae'r Tîm GMPI a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC hefyd yn mynychu cyfarfodydd Byrddau Iechyd i ddarparu diweddariadau a thrafod GMPI a'r hyn a ddysgwyd o ddiwyddiadau hyfforddi/cyfathrebu a gynhaliwyd. Mae gan y Tîm GMPI linellau cyfathrebu agored gyda Cyngor Meddygon Teulu Cymru a'r Coleg Meddygon Teulu Brenhinol, ac maen nhw'n mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau wrth iddynt godi mewn gohebiaeth neu yn ystod trafodaeth.
- 3.11 Cyflwynwyd Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn raddol wrth i'r Cynllun newydd gael ei weithredu, gyda'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol terfynol yn ymwneud ag amserlenni (a nodir isod) ar waith o fis Hydref 2020. Y targed cychwynol oedd cyrraedd 90% o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol, gan godi i 93% yn y flwyddyn 2021-22. Hyd yma, mae'r Tîm wedi cyflawni 100%.

Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Tîm GMPI:

(1) Adolygu mater newydd a rhoi gwybod i'r meddyg teulu a yw'r mater o fewn cwrpas GMPI o fewn 3 diwrnod gwaith ar ôl derbyn gwybodaeth berthnasol neu'n unol â'r hyn a gytunwyd; ac

(2) Adrodd i'r Bwrdd Iechyd a'r meddyg teulu gyda chyfeirnod ffeil Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC ac enw'r sawl sy'n ymdrin â'r achos, penderfyniad ar indemniad, a'r camau nesaf, o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr wybodaeth berthnasol neu'n unol â'r hyn a gytunwyd.

- 3.12 Yn ystod 2021, bydd y Tîm GMPI yn cytuno ar ddangosyddion perfformiad allweddol pellach a ddefnyddir i lywio ac ategu'r wybodaeth ar lefel gwasanaeth a rhoi sicrwydd ychwanegol ar werth am arian, enillion effeithlonrwydd a chynaliadwyedd hirdymor y gwasanaeth. Bydd dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â dysgu o ddiwyddiadau yn cael eu cynnwys fel rhan o'r gwaith hwnnw. Bydd y rhain ar waith erbyn mis Ebrill 2022.
- 3.13 Mae'r Tîm GMPI yn edrych ar sut i wella ffyrdd o weithio ac i sicrhau'r effeithlonrwydd a'r effeithiolrwydd mwyaf posibl o ran sut maen nhw'n gweithredu adnoddau. I'r perwyl hwn, bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn datblygu system rheoli achosion newydd yn ystod 2021-22 a fydd yn hyblyg o ran diwallu anghenion y tîm GMPI a bydd yn cefnogi'r gwaith o fonitro'r dangosyddion perfformiad allweddol ymhellach.

4. Dysgu o ddigwyddiadau a gwella diogelwch cleifion – integreiddio â Chronfa Risg Cymru

- 4.1 Mae gwasanaeth Cronfa Risg Cymru PCGC yn gweinyddu'r trefniant cronni risg ar gyfer colledion sy'n codi yn erbyn cyrff y GIG a sefydlwyd ym 1996 h.y. ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol sy'n ymwneud â gofal eilaidd.
- 4.2 Pan fydd setliad yn cael ei drafod neu pan gaiff dyfarniad anffafriol ei gyhoeddi mewn treial mewn hawliad FLS, bydd y Bwrdd lechyd perthnasol yn talu'r iawndal a'r costau sy'n ddyledus i'r hawlydd. Mae'r Bwrdd lechyd wedyn yn ceisio ad-daliad o Gronfa Risg Cymru o'r arian a dalwyd, drwy weithio gyda'r practis meddyg teulu i gwblhau Adroddiad Dysgu o Ddigwyddiadau. Mae ad-daliad Cronfa Risg Cymru yn gofyn am dystiolaeth glir o ddysgu effeithiol o unrhyw gamgymeriadau neu hepgoriadau a arweiniodd at y gŵyn, os cafodd atebolrwydd ei gyfaddawdu ai peidio. Mae panel cenedlaethol yn craffu ar yr holl Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau, a'i aelodau'n drinwyr achosion a chlinigwyr profiadol. Gwahoddir staff o'r Tîm Cynghori Gofal Meddygol Sylfaenol (PMCAT) i gymryd rhan mewn trafodaethau panel. Er mwyn darparu rhagor o arbenigedd ym maes gofal sylfaenol, gwahoddir clinigwyr gofal sylfaenol i gymryd rhan ym mhroses y panel.
- 4.3 Mae'r penderfyniad i benodi Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC fel gweithredwr Cynllun Indemniad Meddygon Teulu a gefnogir gan y wladwriaeth wedi galluogi cyd-ddysgu rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd ar sail "Cymru gyfan" am y tro cyntaf. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn o ddysgu o ddigwyddiadau yn gwella'r berthynas waith rhwng y practisau meddygon teulu a'r Byrddau lechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar gydweithio i gytuno ar gamau gweithredu i wella diogelwch cleifion a'u rhoi ar waith.
- 4.4 Mae'r Tîm GMPI wedi gweithio gyda Chronfa Risg Cymru a chynghorwyr meddygon teulu mewnol PCGC/PMCAT i ddatblygu a gweithredu proses wedi'i theilwra ar gyfer dysgu o ddigwyddiadau o ran materion meddygon teulu gofal sylfaenol – gan gynnwys cyd-ddysgu rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd ar sail Cymru gyfan. Mae rhan o'r weithdrefn yn ei gwneud yn ofynnol i bractisau meddygon teulu ymrwymo i wneud unrhyw welliannau a nodwyd ac i'r Byrddau lechyd fonitro a gwirio'r gwelliannau a nodwyd. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei ddarparu ledled Cymru.
- 4.5 Hyd yma, mae'r Tîm GMPI wedi darparu canllawiau 'ymarferol' defnyddiol i'r practisau meddygon teulu a'r Byrddau lechyd sy'n profi'r weithdrefn "dysgu o ddigwyddiadau" ar hawliadau. Ar lefel ehangach, mae'r tîm wedi cyfarfod â Phenaethiaid Gofal Sylfaenol a Chyfarwyddwyr Meddygol Cysylltiol Byrddau lechyd yng Nghymru, wedi gwneud cyflwyniad yng Nghyfarfod y Rhwydwaith Diogelwch a Dysgu Rheoli Hawliadau ac yng nghyfarfod Rhwydwaith Penaethiaid Profiad Cleifion (HOPE) ac wedi cyflwyno gweminar anffurfiol i Fwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd y sesiynau hyn yn ffordd ddefnyddiol i staff practis meddyg teulu gyfarfod â Rheolwyr Hawliadau Lleol y

Bwrdd Iechyd a thimau llywodraethu clinigol y Bwrdd Iechyd, y bydd yn ofynnol iddyn nhw gydweithio yn y broses hawlio a'r broses dysgu o ddigwyddiadau.

- 4.7 Ar lefel ymarferol, yn yr Adroddiad Dysgu o Ddigwyddiadau, mae'r Byrddau Iechyd yn adrodd ar y materion a nodwyd o hawliad clinigol ac yn nodi'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion i leihau'r risg o ailadrodd neu leihau effaith digwyddiad yn y dyfodol. Mae Cronfa Risg Cymru yn monitro'r themâu a'r tueddiadau sy'n gysylltiedig â'r materion sy'n destun adroddiadau dysgu. Mae'r Tîm GMPI hefyd yn monitro themâu a thueddiadau sy'n deillio o bryderon cleifion er mwyn pasio'r wybodaeth ymlaen i Gronfa Risg Cymru i'w rhannu, er enghraifft yng nghylchlythyr Cronfa Risg Cymru ac i dynnu sylw at feysydd penodol ar gyfer hyfforddiant.
- 4.8 Y gobaith yw y bydd y gwasanaeth cymorth ychwanegol hwn ynghylch dysgu o ddigwyddiadau yn helpu i atal hawliadau sy'n codi yn erbyn practisau a Byrddau Iechyd yn y lle cyntaf.

5. Pandemig y Coronafeirws

- 5.1 Datblygodd Llywodraeth y DU, mewn ymgynghoriad â'r gwledydd datganoledig, Ddeddf Coronafeirws 2020 a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 25 Mawrth 2020. Mae indemniad esgeuluster clinigol sy'n ymwneud â'r pandemig yng Nghymru wedi'i gynnwys yn Adran 11 o'r Ddeddf.
- 5.2 Roedd y mecanwaith deddfwriaethol sy'n sail i'r cynllun GMPI yn galluogi Llywodraeth Cymru i sefydlu indemniad coronafeirws brys yn gyflym. At hynny, roedd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn gallu defnyddio eu sianeli cyfathrebu i bob meddyg teulu a phractis meddyg teulu yng Nghymru i ategu'r negeseuon gan Lywodraeth Cymru ynghylch y camau brys sy'n cael eu cymryd, gan helpu i gynnal hyder meddygon teulu a Gofal Sylfaenol ehangach.
- 5.3 Sefydlodd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC Hwb Covid pwrpasol dan arweiniad uwch gyfreithiwr i ddelio ag unrhyw ymholiadau ynghylch indemniad Covid. Bu'r Tîm GMPI hefyd yn cynorthwyo practisau meddygon teulu drwy gydol y pandemig drwy ateb ymholiadau ynghylch indemniad a gweithredu'r broses o gyflwyno brechiadau COVID. Cyfrannodd y Tîm at ddogfen ganllaw PCGC, [Trefniadau Indemniad yn Ystod Pandemig Coronafeirws](#), a gynhyrchwyd gyntaf ar ddechrau'r pandemig.
- 5.4 Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC wedi creu tîm cyfreithiol COVID-19 arbenigol i ddelio â materion Gweithio i Wella a hawliadau sy'n ymwneud â COVID-19. Mae'r Tîm GMPI yn cysylltu â'r Tîm COVID-19 yn rheolaidd er mwyn sicrhau cyngor cyson ac i rannu arferion gorau.

6. Y Cynllun Atebolrwyddau Presennol (ELS)

6.1 O dan y Cynllun Atebolrwyddau Presennol (ELS), mabwysiadwyd atebolrwyddau esgeuluster clinigol hanesyddol meddygon teulu Cymru (h.y., y rhai cyn 1 Ebrill 2019) gan Weinidogion Cymru oddi ar y Sefydliadau Amddiffyn Meddygol sy'n cymryd rhan. Y nod oedd sicrhau sefydlogrwydd yn y farchnad ar gyfer esgeuluster clinigol a chynnal yr un drefn â Lloegr a thrwy hynny sicrhau nad oedd meddygon teulu yng Nghymru o dan anfantais o'i gymharu â meddygon teulu yn Lloegr. Mae'r ELS yn amodol ar gwblhau diwydrwydd dyladwy a negodi gyda'r Sefydliadau Amddiffyn Meddygol. Mae trefniadau ELS boddhaol wedi'u cwblhau gyda'r Gymdeithas Diogelu Meddygol (MPS) ac Undeb Amddiffyn Meddygol a Deintyddol yr Alban (MDDUS).

6.2 Mae canllawiau manwl ar yr ELS ar gael yma.

<https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-cyfreithiol-a-risg/legal-risk-services-documents/general-medical-practice-indemnity-gmpi-docs/canllawiaur-cynllun-atebolrwyddau-presennol-cap/>

Mae'r indemniad sy'n cael ei ddarparu o dan yr ELS o natur ddewisol (yn yr un modd â'r GMPI) ac mae'n ymwneud â hawliadau am esgeuluster clinigol sy'n ymwneud ag unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain at hawliad sy'n rhagflaenu 1 Ebrill 2019. Mae manylion am feysydd cymwys ac anghymwys yr un fath â'r GMPI. O dan y Cynllun ELS, y meddyg teulu yw'r Diffynnydd a enwir o hyd.

6.3 Mae'r Tîm GMPI yn ymdrin â hawliadau ELS o dan 'Gynllun Dirprwyo ELS' a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac sy'n cael ei gymeradwyo a'i oruchwylio gan Uwch Grŵp Arweinyddiaeth PCGC.

6.4 Er y cafwyd trafodaethau, ni chafwyd cytundeb ar ELS gyda'r Undeb Amddiffyn Meddygol (MDU). Ar hyn o bryd, byddai meddyg teulu neu glinigydd a oedd yn aelod o'r MDU ar yr adeg berthnasol yn parhau i gysylltu â'r MDU am gyngor.

7. Boddhad Cwsmeriaid a Rhyngweithio â Rhanddeiliaid

7.1 Mae adborth gan bractisau meddygon teulu yn cael ei gasglu drwy 'Holiaduron Boddhad Cleientiaid Cau Achosion' sy'n cael ei gyhoeddi ar ddiwedd hawliad FLS. Hyd yma, mae'r holl ymatebion a gafwyd yn dangos bod y practisau meddygon teulu yn "fodlon iawn" gyda rheolaeth gyffredinol yr achos/y cyngor a ddarparwyd, gan roi sgôr o 5 allan o 5 i'r Tîm GMPI ar yr hawliadau a gwblhawyd ganddo hyd yma.

7.2 Er mwyn llywio'r adroddiad hwn ymhellach a chael adborth cyffredinol i helpu Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC i wella'r ffordd y mae'n darparu ei wasanaethau, cyhoeddodd y tîm GMPI Arolwg Boddhad Cleientiaid byr (dienw) i bob meddyg teulu, meddygon teulu locwm a phractisau meddygon teulu yng Nghymru ym mis Mai 2021. Dilynwyd hyn i gynnwys y rhai a oedd wedi cynorthwyo mewn perthynas â hawliadau clinigol FLS/ELS GMPI a phryderon

Gweithio i Wella cleifion er mwyn sicrhau cyfradd ymateb ehangach. Derbyniwyd cyfanswm o 82 o ymatebion, gyda hanner y bobl a ymatebodd heb gael unrhyw gysylltiad blaenorol â'r Tîm GMPI.

7.4 Mae'r tabl isod yn nodi'r sgoriau seren cyfartalog a roddwyd gan staff practisau meddygon teulu a meddygon teulu (gan gynnwys meddygon teulu locwm) mewn perthynas â chymorth Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC gyda hawliadau esgeuluster clinigol FLS/ELS GMPI a phryderon Gweithio i Wella cleifion:-

	Sgôr seren gyfartalog ar gyfer bodlonrwydd â'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan y tîm GMPI 5 = bodlon iawn 1 = anfodlon iawn	Sgôr seren gyfartalog am ba mor hawdd yw hi i gysylltu â'r tîm GMPI 5 = bodlon iawn 1 = anfodlon iawn	Sgôr seren gyfartalog ar gyfer bodlonrwydd ag amseroedd ymateb GMPI 5 = bodlon iawn 1 = anfodlon iawn
Cymorth Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC gyda hawliad esgeuluster clinigol FLS/ELS	4.6 74% gradd 5 16% gradd 4 5% gradd 3 5% gradd 2 0% gradd 1	4.7 85% gradd 5 5% gradd 4 5% gradd 3 5% gradd 2 0% gradd 1	4.5 68% gradd 5 21% gradd 4 0% gradd 3 11% gradd 2 0% gradd 1
Cymorth Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC gyda phryder cleifion FLS/ELS o dan Gweithio i Wella	4.6 66.66% gradd 5 26.66% gradd 4 6.66% gradd 3 0% gradd 2 0% gradd 1	4.4 53.33% gradd 5 33.33% gradd 4 13.33% gradd 3 0% gradd 2 0% gradd 1	4.2 53.33% gradd 5 13.33% gradd 4 33.33% gradd 3 0% gradd 2 0% gradd 1

7.5 Derbyniodd y tîm GMPI sylwadau ychwanegol yn ymwneud â'i gymorth gyda hawliadau / pryderon FLS ac ELS fel a ganlyn:

- *Mae'r gwasanaeth GMPI wedi bod yn gefnogol ac yn brydlon iawn wrth ofyn am eu cymorth a'u cyngor. (Rheolwr practis)*
- *Bob amser yn barod iawn i helpu, ac mae'r cyngor wedi bod yn gadarn ac wedi'i gyflwyno mewn modd amserol. (Rheolwr practis)*
- *Proffesiynol iawn ac yn barod eu cymorth. (Rheolwr practis)*
- *Cyfathrebu da iawn. (Rheolwr practis)*
- *Derbyniwyd gwasanaeth da. (Meddyg teulu)*
- *Ymateb amserol rhagorol, darpariaeth fanwl a thrylwyr (Rheolwr practis)*
- *Roedden ni wedi cael [Sefydliad Amddiffyn Meddygol] i ddarllen ein hymateb i bryder y claf, a phan gafodd ei gyflwyno i'r GMPI, roedd geiriad y llythyr wedi ei newid i ieithwedd llawer mwy 'cyfreithiol', llai cydymdeimladol a mwy ymosodol/amddiffynnol o ran naws, ac roeddwn i'n teimlo bod hynny'n drueni. (Meddyg teulu)*
- *Mae fy mhrofiad i o'r gwasanaeth wedi bod yn rhagorol. Mae'r staff i gyd wedi bod yn wybodus iawn, yn barod eu cymorth ac yn gyfeillgar a hawdd iawn ymwneud â nhw. O'n safbwynt ni, mae'r amseroedd cyflawni yn sydyn iawn. (Rheolwr practis)*
- *Ymatebion defnyddiol ac amserol iawn (Meddyg teulu)*
- *Roedd gen i broblem gyda chwyn bosibl, ac fe wnaeth y cyngor sicrhau nad aeth y mater ymhellach. Canlyniad boddhaol iawn ac ymateb prydlon (Rheolwr practis)*
- *Fe siaradais i â chynghorydd parod iawn ei gymorth, gwybodus a chysurlon. Roedd wedi delio gyda fy ngalwad o fewn awr i mi gysylltu â'r gwasanaeth, a oedd yn ardderchog, yn fy marn i. (Meddyg teulu locwm)*
- *Rydyn ni'n cael hyfforddiant trin cwynion gan y Bwrdd Iechyd yn ddiweddarach y mis hwn (Meddyg teulu)*
- *Cefnogol iawn – defnyddio iaith glir wrth gynnig arweiniad. (Rheolwr practis)*

- *Cyngor cyfreithiol da a thrylwyr OND proses hirfaith a aeth â ni y tu hwnt i'r terfyn amser i ateb y gŵyn, ac o ganlyniad, roeddwn yn teimlo ein bod ni'n wynebu perygl o wneud y claf yn fwy blin (atom ni fel meddygon teulu am fod yn araf, pan mai aros am y GMPI oedden ni mewn gwirionedd) (Meddyg teulu)*
- *Cyfathrebu da iawn (Rheolwr practis)*
- *Rydw i bob tro'n cael cyfarwyddyd proffesiynol gan eich cyngorwyr gwybodus (Rheolwr Practis)*
- *Wedi mynychu'r weminar ymdrin â chwynion yn ddiweddar, cyflwyniad da iawn, byddai awgrymiadau ar gadw cofnodion yn helpu'n rhagweithiol (Meddyg teulu)*

7.6 Dangosodd yr Arolwg Meddygon Teulu fod diddordeb brwd mewn hyfforddiant pellach, gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer ymdrin â phryderon cleifion; trosolwg ymarferol o'r Cynllun GMPI; awgrymiadau ymarferol ar gyfer cadw cofnodion a rhwydi diogelwch. Mae'r Tîm GMPI eisoes wedi darparu hyfforddiant ar ymdrin â phryderon cleifion, ac mae cynlluniau ar y gweill am hyfforddiant pellach.

7.7 Wrth symud ymlaen, bydd gan y Tîm GMPI raglen hyfforddi flynyddol, a fydd yn cynnwys y pynciau hyfforddi a nodwyd uchod yn ogystal â chysiau gloywi GMPI a dysgu o ddigwyddiadau. Yn ystod 2021-22, bydd y tîm hefyd yn datblygu cynllun cyfathrebu newydd gyda rhanddeiliaid a chyfathrebu parhaus. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar ffyrdd haws i bractisau meddygon teulu a rhanddeiliaid eraill gysylltu â'r Tîm GMPI.

7.8 Mae rhanddeiliaid wedi ymateb yn dda i hyfforddiant y Tîm GMPI ar gyfer meddygon teulu, practisau meddygon teulu, meddygon teulu dan hyfforddiant a Byrddau Iechyd. Er enghraifft, mae hyfforddiant wedi'i ddisgrifio fel a ganlyn: rhagorol; cynnwys perthnasol a defnyddiol; yn cael ei gyflwyno'n effeithiol; addysgiadol a chefnogol iawn. Roedd awgrymiadau y dylai peth o'r hyfforddiant fod ychydig yn fyrrach; y dylid cael taflenni bach ac y dylai mwy o'r hyfforddiant gynnwys enghreifftiau achos/enghreifftiau ffeithiol (ychwanegwyd astudiaethau achos at hyfforddiant dilynol).. Yn ogystal, paratowyd Canllawiau Cyfeirio Cyflym wedi'u diweddarau i helpu i ymateb i bryderon cleifion, a chawsant eu hanfon at bractisau meddygon teulu ynghylch:

(1) [Gweithdrefn Pryderon Gweithio i Wella GMPI Chwefror 2021](#) (2) [Ymateb GMPI i Bryderon Gweithio i Wella GIG Cymru Chwefror 2021](#)

7.9 Cafwyd sylwadau cadarnhaol hyd yma gan gydweithwyr Gofal Sylfaenol y Byrddau Iechyd a chysylltiadau Timau Profiad Cleifion/Timau Gweithio i Wella Byrddau Iechyd yn diolch i'r tîm am eu cyngor a'u heglurder; am help gyda materion ac achosion ac am hyfforddiant defnyddiol e.e. ar GMPI a Dysgu o Ddigwyddiadau mewn Ymarfer Meddygol Cyffredinol.

8. Edrych i'r Dyfodol

- 8.1 Mae cyflwyno'r GMPI wedi bod yn gam cadarnhaol i feddygon teulu a GIG Cymru, gan alluogi gwersi i gael eu dysgu a'u rhannu ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd a thrwy hynny gefnogi gwell gofal i gleifion tra bod meddygon teulu yn parhau i gael eu hamddiffyn yn gadarn yn erbyn hawliadau esgeuluster clinigol. Mae wedi mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â chostau cynyddol premiymau indemniad esgeuluster clinigol. Mae'n cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor darparu gwasanaeth meddygol cyffredinol, gan sicrhau na fydd gwahanol gynlluniau sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr yn effeithio'n andwyol ar recriwtio meddygon teulu a gweithgarwch trawsffiniol.
- 8.2 Mae cyfnod sefydlu'r FLS wedi'i gwblhau, a'r prosesau wedi'u gwreiddio ac yn destun ymlyniad. Mae practisau meddygon teulu a Byrddau Iechyd yn defnyddio llinell gymorth GMPI ac yn troi at y Tîm GMPI am gymorth pan fydd cleifion yn nodi pryderon cymhleth. Mae'r hawliadau FLS ar gynnydd, ac mae canlyniadau da wedi'u cyflawni hyd yma gydag adborth gan bractisau meddygon teulu yn nodi eu bod yn fodlon iawn gyda chymorth y Tîm GMPI parthed yr hawliadau hynny.
- 8.3 Mae'r ffeiliau ELS wedi'u trosglwyddo'n llwyddiannus i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC ac maen nhw bellach yn cael eu rheoli o ddydd i ddydd gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn unol â'r prosesau ELS a roddwyd ar waith.
- 8.4 O ystyried ei hanes, ei phrofiad a'i gwybodaeth fanwl am y GIG yng Nghymru, mae adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC mewn sefyllfa unigryw i gyflawni rôl gweithredwr y ddau gynllun indemniad ar gyfer meddygon teulu yng Nghymru. Wrth symud ymlaen, bydd y Tîm GMPI yn parhau i weithio gyda Chronfa Risg Cymru a chynghorwyr meddygon teulu mewnol/PMCAT i nodi a chynnig adborth am faterion risg ar gyfer gwella dysgu a diogelwch mewn Gofal Sylfaenol tra'n parhau i amddiffyn meddygon teulu rhag hawliadau am esgeuluster clinigol.
- 8.5 Bydd y Tîm GMPI yn parhau i weithio'n agos gyda phractisau meddygon teulu, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i hyrwyddo cysylltiadau a chydweithio agosach rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd er mwyn helpu i wella diogelwch cleifion.